


Nodyn Briffio



Ynni adnewyddadwy nid pŵer niwclear

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Mae de Parc Cenedlaethol Eryr, man anghysbell a phrydferth, yn gartref i orsaf bŵer niwclear sy'n pydru ac yn berygl. Bydd llyn Trawsfynydd a'r safle wedi ei lygru ag ymbelydredd am filoedd o flynyddoedd, er i'r orsaf bŵer gau ym 1993. Mae peilonau trydan yn gweu eu ffordd mewn dau gyfeiriad drwy'r parc sy'n ei hamgylchynu, yn cludo trydan i gadw'r orsaf bŵer marw yn oer. Gerllaw, mae'r Ganolfan Technoleg Amgen a ffermydd gwynt yn tystio i ddulliau eraill o greu ynni.

Un o'r rhain yw fferm wynt Cefn Croes ger Aberystwyth a agorodd yn ddiweddar. Mae ei 39 tyrbîn pwerus nawr yn cyflenwi hanner galw blynyddol Ceredigion am drydan. Yn wir, gallai canolbarth Cymru gynhyrchu llawer o'i alw trydan ei hun o adnoddau gwynt y rhanbarth.

Beth yw newid hinsawdd?

Mae'r prif wyddonwyr yn cytuno bod newid hinsawdd yn rhywbeth gwirioneddol, a'i fod yn digwydd. Mae'r byd yn mynd yn gynhesach ac mae'r tywydd yn mynd yn fwy eithafol. Mae rhagor o sychder, stormydd a llifogydd ar eu ffordd. Mae'n ganlyniad uniongyrchol llosgi mwy a mwy o danwyddau ffosil ar gyfer defnydd cynyddol o ynni. Mae'r carbon deuocsid (CO₂) sy'n cael ei ryddhau yn cadw gwres yr Haul yn yr atmosffer gan achosi effaith tŷ gwydr. Mae lefelau CO₂ heddiw draean yn uwch nag yr oeddent cyn y chwyldro diwydiannol.

Cael ein hynni

Ar hyn o bryd mae ynni niwclear yn cyflenwi tua 22 y cant o'r galw am drydan yn DU. Bydd y rhan fwyaf o'r gorsafoedd niwclear presennol yn cau rhwng 2010 and 2020. Bydd rhai gorsafoedd glo mawr hefyd yn cau i lawr yn yr un cyfnod. Bydd angen i tua 30 y cant o allu cynhyrchu y DU gael ei lenwi, os bydd y galw am drydan yn parhau'n uchel.

Gallai anghenion trydan presennol Cymru gael ei gynhyrchu gan ffynonellau ynni adnewyddadwy yn unig. Gallai ynni gwynt, ar y môr ac ar y tir gynhyrchu tua 30 y cant. Gallai tyrbinau tanddwr gynhyrchu hyd at 50 y cant. Gallai cynlluniau biomas, pŵer solar a hydro-electrig hefyd wneud cyfraniadau llai, ond arwyddocaol i wneud y gwahaniaeth. Gallai morlynnoedd llanw yn aber yr afon Hafren gynhyrchu mwy o drydan nad sydd ei angen ar Gymru. Mae ynni tonnau a llif y llanw yn dechnolegau eraill y gellid eu hystyried.

Targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yw tua 20% o'r galw am drydan yng Nghymru erbyn 2010. Mae ffermydd gwynt ar y tir yn debygol o gyflenwi tua 14% o'r galw hwn, neu anghenion tua 400,000 o bobl yng Nghymru. Gallai ffermydd gwynt ar y môr sydd naill ai wedi eu hadeiladu, wedi eu cymeradwyo neu wedi eu cynnig, gyflenwi 14% arall o'r galw erbyn tua 2011. Mae hyn, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd ynni, yn dangos y gall ynni adnewyddadwy lenwi'r bwch a adewir gan orsafoedd pŵer marw.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
- yn rhan o fudiad ymgrychru amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG
- yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgrychru mewn cymunedau ledled Cymru
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriol Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY

Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebst cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Problemau niwclear

Mae'r diwydiant niwclear wedi bod yn gweithredu ers tua 50 mlynedd ac eto nid oes ffordd argyhoeddiadol o storio gwastraff ymbelydrol hir dymor yn ddiogel. Byddai'r gwastraff hwn yn parhau'n beryglus iawn am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Mewn cymhariaeth, gall cynlluniau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ffermydd gwynt, gael eu tynnu i lawr mewn wythnosau gyda fawr ddim olion gweledol na gwenwynol. Er yr honnir y byddai mathau newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn cynhyrchu llai o wastraff, byddai'n cynhyrchu cyfran uwch o wastraff ymbelydrol lefel uchel. Mae gorsafoedd pŵer niwclear yn rhyddhau llygredd ymbelydrol niweidiol. Mae'r gorsafoedd eu hunain, yn ogystal â'r safleoedd gwastraff, yn darged deniadol ar gyfer ymosodiad gan derfysgwyr.

Gwir gost ynni

Mae'r diwydiant niwclear yn cynnig adeiladu rhwng wyth a deg gorsaf newydd yn lle'r rhai sydd ar derfyn eu bywyd. Ond byddai'n cymryd o leiaf deng mlynedd i gomisiynu'r cyntaf o gyfres newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn y DU. A byddai'n cymryd biliynau o bunnoedd mewn buddsoddiad cyfalaf. Mae wedi costio biliynau o bunnoedd yn y gorffennol ac mae costau yn dal i godi oherwydd y mater storio gwastraff sydd heb ei ddatrys. Byddai'n well gwario buddsoddiad cyfalaf o'r fath ar dechnolegau adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel di-niwclear a fyddai'n raddol y cynyddu cyflenwad ac yn lleihau allyriadau.

Yn fuan bydd trydan o 'adnewyddion', yn arbennig ffermydd gwynt ar y tir, cyn rhated neu'n rhatach na thrydan o orsafoedd pŵer sy'n llosgi glo. Mae adnewyddion hefyd yn llawer glanach a mwy diogel na phŵer niwclear. Nid yw adnewyddion yn darged nac yn arf distryw mawr posibl. Mae gan Gymru adnoddau adnewyddadwy mawr yn arbennig ar y môr, o ran llanw a gwynt. Mae yna hefyd botensial mawr ar gyfer creu swyddi mewn diwydiannau ynni adnewyddadwy yn y cymunedau presennol o gwmpas y wlad.

Gwneud y gwahaniaeth adref

Mae tyrbinau gwynt micro ar gartrefi, swyddfeydd ac adeiladau diwydiannol yn un ffordd o fynd i'r afael â defnydd ynni yn gyfrifol. Gall effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio cartrefi a defnyddio technoleg ynni effeithlon leihau defnydd ynni a biliau yn sylweddol.

Y dyfodol

Gallai anghenion ynni un filiwn o bobl yng Nghymru gael ei gynhyrchu gan ynni gwynt o fewn deng mlynedd. Gallai Cymru fod ymhlith arweinwyr ynni adnewyddadwy yn fyd-eang. Mae gan y byd adnoddau ynni adnewyddadwy anferthol, a all mewn cyfuniad ag effeithlonrwydd ynni a thechnolegau carbon isel di-niwclear gyflenwi anghenion ynni byd-eang yn y dyfodol. Mae peryglon mawr ac anhydrin iawn mewn pŵer niwclear ac nid oes angen rhaglenni niwclear newydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Beth ellir ei wneud am y peth?

Mae llawer y gellid ei wneud i rwystro a gwrth-droi'r cynnydd mewn allyriad y nwyon sy'n newid yr hinsawdd. Rhaid rhoi llawer mwy o bwyslais ar fesurau arbed ynni, systemau ynni adnewyddadwy (megis gwynt, solar a phŵer llanw) a systemau cludiant cyhoeddus da. Mae gan y system gynllunio rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael sylw drwy, er enghraifft, sicrhau fod pobl yn gallu gweithio, siopa a mwynhau cyfleusterau hamdden yn agos i'w cartrefi - gan leihau'r angen am deithio gormodol.

Ymunwch â'r Her Fawr

Mae ymgyrch Yr Her Fawr Cyfeillion y Ddaear yn helpu pobl sy'n poeni am newid hinsawdd i bwysu ar eu Haelodau Seneddol i basio deddf sy'n gorfodi Llywodraeth y DU i wneud toriadau blynyddol o 3 y cant mewn allyriadau CO₂ blwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu yn awr i leihau allyriadau carbon deuocsid - o gynhyrchiad trydan, o gludiant ac o ddiwydiant. *Ymunwch ag ymgyrch newid hinsawdd Yr Her Fawr i ofyn i'r llywodraeth ddechrau gweithredu ar newid hinsawdd.*
- Gallwch hefyd weithredu yn eich cartref neu'ch swyddfa drwy arbed ynni a chefnogi mentrau ynni adnewyddadwy, osgoi teithiau awyr a cheir diangen a phrynu'n lleol. *Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.foecymru.co.uk.*